TAG UG/UWCH

2000N30-1

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF – UG uned 3

## Defnyddio Iaith, a Barddoniaeth
## (Papur Ysgrifenedig)

DYDD LLUN, 21 MAI 2018 – PRYNHAWN

2 awr a'ch amser estynedig

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du, neu eich dull arferol.**

**Atebwch y DDAU gwestiwn.**

**Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir.**

**Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.**

**Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.**

**Awgrymir eich bod yn treulio 45 munud ar Adran A ac 1 awr 15 munud ar Adran B.**

**Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.**

**Ni chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth a astudiwyd na geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.**

## ADRAN A

## DEFNYDDIO IAITH

**1.** **Atebwch BOB rhan o'r cwestiwn hwn. Cewch eich gwobrwyo am greu brawddegau sy'n ieithyddol gywir.**

**(a)** **Defnyddiwch y canlynol mewn brawddegau gwreiddiol, UN ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd:**

**gwêl**
**sonnir**
**ynddo [6]**

**(b)** **Darllenwch y darn sydd yn y blwch isod ac atebwch gwestiynau (i) a (ii). Yn dilyn hynny, atebwch gwestiynau (iii) – (vii).**

| |
|---|
| **Perfformiwyd Y ddrama am y tro cyntaf eleni. Roeddwn YN falch mai merch o fy nhref enedigol oedd y cynhyrchydd. Merch…** |

**1(i)** **Edrychwch ar y DDAU AIR sydd mewn prif llythrenau ac eglurwch yn llawn y rheswm pam mae'r gair sydd yn dilyn ymhob achos wedi'i dreiglo. [2]**

**(ii)** **Chwiliwch am enghreifftiau o'r canlynol yn y blwch uchod:**
**rhagenw dibynnol blaen**
**cysylltair**
**berf amhersonol [3]**

**(iii)** **Cysylltwch y brawddegau canlynol gan greu UN frawddeg:**

**Clywais i. Roedden nhw'n mynd i adeiladu llyfrgell newydd yno. [2]**

**(iv)** **Newidiwch bob lluosog yn unigol yn y frawddeg isod:**

**Dylem orffen astudio'r cerddi'n fuan. [2]**

**(v)** **Mae DAU wall yn y frawddeg isod. LLUNIWCH DAIR COLOFN: yn gyntaf nodwch y camgymeriad, yn yr ail cywirwch ef, ac yn y drydedd nodwch eich rheswm dros gywiro.**

**Credaf bod hi wedi cael swydd y bydd hi'n falch ohono. [4]**

1(vi) **Lluniwch UN FRAWDDEG gan ddefnyddio'r wybodaeth i gyd sydd yn yr ail golofn isod: [3]**

| | |
|---|---|
| **ENW:** | **Bwlbamwy** |
| **DISGRIFIAD:** | **siop** |
| **PA FATH?** | **lleol** |
| **PA FAES?** | **trydanol** |
| **GWYBODAETH YCHWANEGOL:** | **gwerthu nwyddau amrywiol i'r cartref** |
| **DOSBARTHU:** | **cenedlaethol a rhyngwladol ar y we** |

(vii) **Ailysgrifennwch y neges a ganlyn gan ei gwneud yn un fwy AMRYWIOL EI BRAWDDEGAU. Gallwch UNO BRAWDDEGAU, os dymunwch. Cewch gychwyn un frawddeg yn unig gyda 'Mae'. [3]**

**Mae Cyngor Sir Abertawe yn bwriadu codi tâl ar gyfer casglu biniau brown. Mae'r Cyngor yn dweud nad oes cyllid i ariannu'r cynllun o fis Ionawr ymlaen. Mae'r bin brown yn cael ei gasglu unwaith bob pythefnos. Mae'r bin brown ar gyfer gwastraff o'r ardd. Mae angen i bawb sydd eisiau parhau gyda'r cynllun gysylltu â'r Cyngor. Mae cyfeiriad i gysylltu â'r Cyngor ar waelod y daflen hon.**

**[25]**

## ADRAN B

## BARDDONIAETH

**2.** **Ysgrifennwch draethawd ar UN o'r canlynol.**

**Wrth ateb, dylech gofio:**

- **defnyddio nifer digonol o gerddi (o leiaf dair cerdd) wrth ymateb i ofynion y cwestiwn**
- **dadansoddi arddull**
- **cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol**
- **defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.**

**NAILL AI**

**(a)** **Mae'r YMDEIMLAD O BERTHYN, boed i ddarn o dir neu gymdeithas, wedi ysbrydoli cerddi beirdd ar hyd y blynyddoedd. Trafodwch a chymharwch sut y llwydda Waldo Williams, Gwyn Thomas a T.H.Parry-Williams i gyfleu'r ymdeimlad hwn o berthyn. Dylech gyfeirio at GYNNWYS y cerddi, AGWEDD y beirdd a'u HARDDULL. [40]**

**NEU**

**2(b)** **Yn y gerdd 'Y GENHEDLAETH GOLL' y mae Alan Llwyd yn dangos ei safbwynt yn glir ac yn llwyddo i BIGO EIN CYDWYBOD. Trafodwch y gerdd hon a'i chymharu â DWY gerdd arall, un o waith Myrddin ap Dafydd ac un o waith Gwenallt sy'n dangos eu bod hwythau hefyd yn llwyddo i BIGO EIN CYDWYBOD. Bydd angen i chwi gyfeirio at GYNNWYS y cerddi a'u HARDDULL. [40]**

**DIWEDD Y PAPUR**